‘Not in our name’ – Wales stands up to Priti Patel’s ‘callous’ asylum legislation

Plaid Cymru Westminster leader joins forces with refugee activist against Borders Bill

Plaid Cymru’s Westminster leader, **Liz Saville Roberts MP**, has on Monday 19 July joined forces with activist and refugee Joseff Gnagbo, from Cardiff, in opposition to Priti Patel’s **“callous”** asylum legislation, which will be debated in Parliament this week.

The Second Reading of the Nationality and Borders Bill, which is the cornerstone of the UK Government’s hostile ‘New Plan for Immigration’, will start on Monday in the House of Commons.

The far-reaching Bill will introduce penalties for people who arrive in the UK in ways the government considers to be illegal. This undermines one of the basic tenets of the 1951 Refugee Convention – that someone’s mode of arrival should have no influence on whether they have a right to make an asylum claim, or whether they are recognised as a refugee.

It will also expand the asylum accommodation estate, which would likely lead to more people being housed in unsuitable accommodation sites such as the Penally barracks in Pembrokeshire, which was described by the Independent Chief Inspector of Borders and Immigration (ICIBI) as “impoverished, run-down and unsuitable for long-term accommodation”.

The Bill also makes provision for the offshore processing of asylum applications, despite several European countries, including France, having already ruled out striking bilateral deals of the return of asylum seekers. Rwanda recently responded to reports it would host an offshoring hub for Denmark and the UK by clarifying that there is no such agreement.

Joseff Gnagbo, originally from Côte d'Ivoire, works as a carer, a translator and a teacher, and volunteers for Cymdeithas yr Iaith, the Welsh Language Society. He has criticised the **“callous approach”** taken by the UK Government, which he says **“will undermine Wales’s ambitions to become a Nation of Sanctuary”** and will **“encourage tensions between and within communities”.**

The Plaid Cymru Westminster leader, Liz Saville Roberts MP, who will today speak against the Bill at Second Reading in the House of Commons, said ahead of the debate that the Bill **“rips up the UK’s international commitments under the Refugee Convention”** and **“formalises state-sanctioned cruelty against vulnerable people.”**

The Refugee Council has described the legislation as an “anti-refugee bill” which is “likely to criminalise and punish many people seeking protection in this country, while also reducing one of the main ways that refugees can legally reach the UK.”

Speaking ahead of the debate in Westminster, **Liz Saville Roberts MP** said:

“Wales says with a united voice today: not in our name.

“Not only does Priti Patel’s callous Borders Bill rip up the UK’s international commitments under the Refugee Convention, it also formalises state-sanctioned cruelty against vulnerable people.

“Priti Patel’s approach is to see asylum seekers as a nuisance that should be pushed away from arriving here safely in the first place, and to hide those who do from the rest of society. Now, by treating asylum seekers as criminals that should be punished in inhabitable accommodation rather than helped to integrate into society, the Home Secretary is undermining the Welsh Government and wider Welsh civic society’s ambitions of being a Nation of Sanctuary.

“This Bill is also totally unworkable, expecting other countries to agree to process the UK’s asylum claims. It’s time the Home Secretary faces her own responsibilities and provide humane and serious solutions to help refugees and asylum seekers integrate into society.”

Joseff Gnagbo added:

“The callous approach taken by the UK Government will undermine Wales’s ambitions to become a Nation of Sanctuary and will encourage tensions between and within communities.

“We are already treated as an inconvenience under the current asylum system. Under these reforms, we will be treated as criminals. Women and children will find it impossible to seek asylum under these policies, which will lead to more families ripped apart.

“Since arriving in Wales in 2018 as an asylum seeker, I have immersed myself in the language and culture, becoming fluent in a year. The welcome I have received by the people of Wales in that time is in stark contrast with the Home Office’s cruel policies. I want refugees and asylum seekers to have more help in integrating into Welsh society. Sadly, this legislation seeks to make that almost impossible.”

Ends.

‘Nid yn ein henw ni’ – Cymru’n sefyll i fyny yn erbyn deddfwriaeth ‘greulon’ Priti Patel ar loches

Arweinydd Plaid Cymru yn San Steffan yn ymuno gydag ymgyrchydd dros ffoaduriaid yn erbyn y Mesur Ffiniau

Mae arweinydd Plaid Cymru yn San Steffan, **Liz Saville Roberts AS**, heddiw (Llun 19 Gorffennaf) wedi ymuno gyda’r ymgyrchydd a’r ffoadur Joseff Gnagbo, o Gaerdydd, i wrthwynebu deddfwriaeth “greulon” Priti Patel am loches, fydd yn cael ei drafod yn y Senedd yr wythnos hon.

Bydd Ail Ddarlleniad y Mesur Cenedligrwydd a Ffiniau, sef conglfaen ‘Cynllun Newydd am Fewnfudo’ gelyniaethus Llywodraeth y DG, a fydd yn cychwyn ar ddydd Llun yn Nhŷ’r Cyffredin.

Bydd y Mesur pellgyrhaeddol hwn yn cyflwyno cosbau i bobl fydd yn cyrraedd yn y DG mewn ffyrdd a ystyrir gan y llywodraeth yn anghyfreithlon. Mae hyn yn tanseilio un o elfennau sylfaenol Confensiwn Ffoaduriaid 1951 - na ddylai’r dull y mae rhywun yn cyrraedd gael unrhyw ddylanwad ar eu hawl neu beidio i gael lloches, nac a ddylid eu cydnabod fel ffoadur ai peidio.

Bydd hefyd yn ehangu stad y llety lloches, a fyddai, fwy na thebyg yn arwain at gartrefu mwy o bobl mewn safleoedd amhriodol megis barics Penalun yn Sir Benfro, a ddisgrifiwyd gan Brif Arolygydd Annibynnol Ffiniau a Mewnfudo (ICIBI) fel “tlodaidd, adfeiliedig ac anaddas fel llety tymor-hir”.

Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer prosesu ceisiadau am loches mewn gwledydd tramor, er bod sawl gwlad Ewropeaidd, gan gynnwys Ffrainc, eisoes wedi diystyru’r syniad o gytundebau ynghylch dychwelyd ceiswyr lloches. Ymatebodd Rwanda yn ddiweddar i adroddiadau y byddai'n cynnal canolbwynt anghysbell i Ddenmarc a'r DU trwy egluro nad oes cytundeb o'r fath.

Mae Joseff Gnagbo, yn wreiddiol o Côte d'Ivoire, yn gweithio fel gofalwr, cyfieithydd ac athro, ac yn gwirfoddoli i Gymdeithas yr Iaith. Mae wedi beirniadu’r **“agwedd ddideimlad”** a gymerwyd gan Lywodraeth y DG, a fydd, meddai, yn **“tanseilio uchelgais Cymru i ddod yn Genedl Noddfa”** ac yn **“annog tensiynau rhwng cymunedau ac ynddynt”.**

Dywedodd arweinydd Plaid Cymru yn San Steffan, Liz Saville Roberts AS, a fydd yn siarad heddiw yn erbyn y Mesur yn yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ’r Cyffredin, cyn y ddadl fod y Mesur yn **“rhwygo ymrwymiadau rhyngwladol y DG dan y Confensiwn Ffoaduriaid”** ac yn **“ffurfioli creulondeb gan y wladwriaeth yn erbyn pobl fregus.”**

Mae’r Cyngor Ffoaduriaid wedi disgrifio’r ddeddfwriaeth fel “mesur gwrth-ffoaduriaid” sy’n debyg o “gosbi llawer o bobl sy’n ceisio gwarchodaeth yn y wlad hon, a’u galw’n

droseddwyr, a lleihau ar yr un pryd un o'r prif ffyrdd y gall ffoaduriaid yn gyfreithlon gyrraedd y DG."

Wrth siarad cyn y ddadl yn San Steffan, dywedodd, Liz Saville Roberts AS:

"Dywed Cymru gydag un llais unedig heddiw: nid yn ein henw ni.

"Nid yn unig y mae Mesur Ffiniau creulon Priti Patel yn rhwygo ymrwymiadau rhyngwladol y DG dan y Confensiwn Ffoaduriaid, ac y mae hefyd yn ffurfioli creulondeb gan y wladwriaeth yn erbyn pobl fregus.

"Agwedd Priti Patel yw gweld ceiswyr lloches fel anghyfleuster y dylid eu gwthio ymaith rhag cyrraedd yma'n ddiogel yn y lle cyntaf, ac i guddio'r sawl sydd yn cyrraedd ymaith oddi wrth weddill cymdeithas. Trwy drin ceiswyr lloches fel troseddwyr ddylai gael eu cartrefu mewn llety anaddas yn hytrach na phobl y dylid eu helpu i integreiddio, mae'r Ysgrifennydd Cartref yn tanseilio uchelgais Llywodraeth Cymru a chymdeithas sifig ehangach Cymru o ddod yn Genedl Noddfa.

"Does dim modd chwaith i'r Mesur hwn weithio, gan ei fod yn disgwyl i wledydd eraill brosesu hawliadau lloches y DG. Mae'n bryd i'r Ysgrifennydd Cartref wynebu ei chyfrifoldebau ei hun a darparu atebion dyngarol a difrifol er mwyn croesawu'r sawl sy'n ceisio lloches."

Ychwanegodd Joseff Gnagbo:

"Bydd agwedd ddideimlad Llywodraeth y DG yn tanseilio uchelgais Cymru i ddod yn Genedl Noddfa a bydd yn annog tensiynau rhwng cymunedau ac ynddynt.

"Rydym eisoes yn cael ein trin fel anhwylustod dan y drefn loches bresennol. Dan y diwygiadau hyn, cawn ein trin fel troseddwyr. Bydd merched a phlant yn ei chael yn amhosib ceisio lloches dan y polisïau hyn, fydd yn arwain at rwygo mwy o deuluoedd ar wahân.

"Ers i mi gyrraedd Cymru yn 2018 fel ceisiwr lloches, rwyf wedi trochi fy hun yn yr iaith a'r diwylliant, gan ddod yn rhugl mewn blwyddyn. Mae'r croeso a dderbyniais gan bobl Cymru bryd hynny yn gwrthgyferbynnu'n hallt gyda pholisïau creulon y Swyddfa Gartref. Rwyf eisiau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael mwy o help i gymhathu i gymdeithas Cymru. Gwaetha'r modd, mae'r ddeddfwriaeth hon yn mynd ati i wneud hynny bron yn amhosib."

Diwedd.

***NODIADAU I'R GOLYGYDD* / EDITOR'S NOTES:**

- Liz Saville Roberts MP and Joseff Gnagbo are available for further comment or interviews
- The Second Reading of the Nationality and Borders Bill will take place over two days on Monday 19 and Tuesday 20 July
- The Nationality and Borders Bill – A devastating day for refugee protection, Refugee Council, 6 July 2021

- An inspection of the use of contingency asylum accommodation – key findings from site visits to Penally Camp and Napier Barracks, Independent Chief Inspector of Borders and Immigration, 8 March 2021
- Nation of Sanctuary – Refugee and Asylum Seeker Plan, Welsh Government, January 2019

***MANYLION CYSWLLT* / CONTACT DETAILS:**

Cai Llwyd Elis
E: cai.elis@parliament.uk
T: 07842553898

Angen Llun? Ewch i: www.flickr.com/plaidcymru	**Need a Picture? Go to:** www.flickr.com/plaidcymru
Mae Plaid Cymru yn rhoi'r hawl i chi ddefnyddio unrhyw rai o'r lluniau i'w cyhoeddi/defnyddio ar-lein.	Plaid Cymru gives you the right to use any of our high-resolution pictures for your publication/online use.
Rydych yn derbyn yr e-bost hwn am eich bod ar restr cyswllt cyfryngau Plaid Cymru. Os nad ydych yn dymuno derbyn datganiadau'r wasg gennym o hyn allan, plis rhowch wybod drwy ymateb i'r neges hon gyda "Dad-danysgrifio" yn y blwch testun.	*You are receiving this e-mail because you are on Plaid Cymru's media mailing list. Should you no longer wish to receive our press releases, please inform us by responding to this message with 'Unsubscribe' in the subject line.*